Adroddiad Ymgynghori

Teithio Llesol Coridor y Gorllewin – Croesfan Sebra Heol Casnewydd / Old Hill

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion y cynllun uchod rhwng 2 Hydref 2017 a 23 Hydref 2017.

Cafwyd dau ymateb. Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi eu crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Y broblem: Roedd yr ymatebydd yn bryderus y gallai mynediad i'r briffordd o eiddo ar Old Hill yn cael ei adleoli i Heol Casnewydd, gan ofyn i feddianwyr yr eiddo yrru am yn ôl i Heol Casnewydd.

Ymateb: Mae angen culhau Old Hill yng nghyffordd Heol Casnewydd i wella diogelwch i gerddwyr drwy leihau hyd y groesfan anffurfiol yn y gyffordd a lleihau cyflymder cerbydau yn y gyffordd. I liniaru effaith adleoli'r drosffordd i gerbydau i Heol Casnewydd, newidiwyd dyluniad y gyffordd ymwthiol i roi lle i droi cerbyd fel nad yw o reidrwydd yn gyrru am yn ôl i Heol Casnewydd.

Y broblem: Mae'r ymatebydd yn anghytuno â gosod twmpathau arafu, gan ddweud nad ydynt yn atal goryrru ac y dylid blaenoriaethu atgyweirio tyllau ffyrdd.

Ymateb: Bydd y groesfan sebra yn cael bwrdd arafu gan fod hyn yn gwella hygyrchedd i bobl sy'n cael trafferth symud neu gadeiriau gwthio yn well na chyrbau is, a bydd y bwrdd yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfyngiad cyflymder 30mya ac mae'n ei weithredu ei hun, a bydd y bwrdd yn arafu traffig sy'n dynesu at y groesfan sebra, sy'n gwella diogelwch a gweledededd wrth y groesfan. Cafodd y cynllun ei flaenoriaethu ar ôl cwblhau'r Cynllun Cymdogaethau Cerddedadwy a wnaed yn 2013 ac fe'i hariennir yn allanol drwy Gronfa Drafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru.